# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Llun, 9 Rhagfyr 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd P. Lewis (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
Cllr. G. Caron, P. Lewis, Cllr. C. Lloyd, Cyng. M. Norris, Cllr. J.Pugh Roberts,
Cllr. C. Weaver and D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr:

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
N. Aurelius, Assistant Chief Executive (Resources)
Cobb, Senior Accountant Pension Fund
J. Dong, Swyddog Technegol a'r Trysorlys
Hurst, Pensions Manager
J. Laimann, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol
C. Lee, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Rheng Flaen
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
WILLIAMS

**- 10.00 - 11.20 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Aaron Shotton (Cyngor Sir y Fflint).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

| | |
|---|---|
| G. Caron | Aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf;<br>Ei wraig yn Aelod Gohiriedig o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf;<br>Ei fab yng nghyfraith yn Aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf |
| P. Lewis | Aelod o Gronfa Bensiwn Powys; |
| C. Lloyd | Aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe;<br>Ei Dad yn aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe; |
| M. Norris | Aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf; |
| J. Pugh Roberts | Aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd; |
| E. Williams | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed. |

(Noder: Mae eithriad yng Nghod Ymddygiad Aelodau sy'n galluogi i aelod sydd wedi'i benodi neu'i enwebu i gorff perthnasol gan ei awdurdod ddatgan y budd hwnnw ac i aros a chymryd rhan yn y cyfarfod).

## 3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 SEPTEMBER 2019

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu a gynhaliwyd ar 20 Medi 2019, fel cofnod cywir.**

## 4. DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

Hysbyswyd y Cydbwyllgor bod gwaith ar nifer o bolisïau a chynlluniau wedi ei gwblhau yn ystod y misoedd diwethaf a daethpwyd â'r dogfennau isod i'r cyfarfod heddiw i'w cymeradwyo:

- Datganiad Credoau
- Matrics llywodraethu
- Cynllun cyfathrebu
- Cynllun Hyfforddi 2019/20

O ran y camau nesaf a'r blaenoriaethau, hysbysodd Mr Parnell fod cynllun busnes yn cael ei ddatblygu a byddai fersiwn drafft yn cael ei ddosbarth i'r Cydbwyllgor yn y flwyddyn newydd. Roedd yr is-grŵp marchnadoedd preifat yn gweithio ar ddiffinio'r gofynion ar gyfer asedau caeth a byddent yn rhoi argymhellion i Weithgor y Swyddogion a'r Cydbwyllgor. Byddai asiant pleidleisio drwy ddirprwy yn cael ei benodi a pholisi pleidleisio'n cael ei ddatblygu.

Mewn meysydd allweddol eraill, hysbyswyd y Cydbwyllgor fod BlackRock wedi eu penodi fel y Rheolwr Trawsnewid Incwm Sefydlog. Bydd Link yn rhoi diweddariad ar weithrediad y cynllun ar gyfer y trawsnewid yn y cyfarfod heddiw. Atodwyd cynllun gwaith PPC wedi ei ddiweddaru am 2019/20 ac roedd datganiad i'r wasg ar Bolisi Buddsoddi Cyfrifol PPC to atodol i'r adroddiad.

O safbwynt y Polisi Buddsoddi Cyfrifol, awgrymwyd y dylai matrics monitro amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) ystyried adrodd am allyriadau Sgôp 1-3 fel a nodwyd yn y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr.

**PENDERFYNWYD i dderbyn cyflwyniad yr awdurdod lletya.**

## 5. CYNLLUN HYFFORDDIANT PPC 2019/20

Ystyriodd y Cydbwyllgor Gynllun Hyfforddiant PPC 2019/20. Hysbyswyd y Cydbwyllgor i'r Cynllun Hyfforddi gael ei ddatblygu ar sail yr ymatebion a gafwyd i Holiadur Gofynion Hyfforddi PPC, oedd wedi ei gyflwyno i holl aelodau Gweithgor y Swyddogion ac aelodau'r Cydbwyllgor. Oherwydd amseriad datblygu'r Cynllun Hyfforddi, dim ond chwarter olaf 2019/20 oedd wedi wedi ei gynnwys. Byddai Cynllun Hyfforddi 2020/21 yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor ym mis Mawrth 2020. Hysbyswyd y Cydbwyllgor ymhellach mai bwriad Cynllun Hyfforddi PPC oedd cyd-fynd â chynlluniau hyfforddi yr awdurdodau unigol.

Wrth ateb ymholiad, hysbyswyd y Cydbwyllgor bod yr hyfforddiant a ddarparwyd dan Gynllun Hyfforddi PPC yn agored i aelodau'r pwyllgor pensiwn a'r bwrdd, ar yr amod bod digon o le yn y lleoliadau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Hyfforddi PPC 2019/20**.

## 6. CYNLLUN CYFATHREBU PPC

Cafodd y Cydbwyllgor gyflwyniad ar Gynllun Cyfathrebu PPC. Hysbyswyd fod y Cynllun wedi cael ei ddatblygu yn dilyn gweithdy cyfathrebu a fynychwyd gan aelodau Gweithgor y Swyddogion a'r Cydbwyllgor ym Mehefin 2019. Roedd y Cynllun yn adnabod cynulleidfa PPC, negeseuon allweddol, dulliau cyfathrebu, cyfrifoldebau a'r broses adolygu a myfyrio.

Wrth ateb ymholiad, hysbyswyd y Cydbwyllgor y byddai'r cynllun cyfathrebu yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Cydbwyllgor ar ebost cyn ei ddosbarthu yn ehangach.

Wrth ateb ymholiad ynghylch y porth dogfennau mewnol, cafodd y Cydbwyllgor wybod y byddai'r porth yn hygyrch i holl aelodau'r Cydbwyllgor a'r Gweithgor Swyddogion.

Gwnaed sylw yn awgrymu y dylai rheolwyr y gronfa ddarparu'r Cydbwyllgor gyda gwybodaeth ar eu gweithgareddau am fuddsoddi cyfrifol a safonau ESG.

Wrth ateb ymholiad ynghylch datganiadau i'r wasg, cafodd y Cydbwyllgor wybod ei fod yn arfer safonol cyffredinol i Gadeirydd y Cydbwyllgor i gael ei ddyfynnu ac i gymeradwyo pob datganiad i'w wasg. Er hynny, roedd yn fanteisiol i gael yr hyblygrwydd i newid yr arfer yma os oedd angen.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Cyfathrebu PPC.**

## 7. DATGANIAD CREDOAU PPC

Cafodd y Cydbwyllgor gyflwyniad ar Ddatganiad Credoau PPC. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r Datganiad Credoau yn cael ei ddefnyddio i gyfarwyddo gwneud penderfyniadau gan y PPC, polisiau a chynlluniau busnes a byddai ar gael ar wefan PPC.

Awgrymwyd y dylid newid mymryn ar eiriad pwynt 6 a'i osod yn uwch i fyny yn y Datganiad ac na ddylai eitemau gael eu rhifo gan osgoi'r argraff o flaenoriaethu.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Credoau y PPC.**

## 8. MATRICS LLYWODRAETHU PPC

Cafodd y Cydbwyllgor gyflwyniad ar Fatrics Llywodraethu PPC. Cynghorwyd y Pwyllgor fod y Matrics Llywodraethu yn darparu trosolwg o strwythur llywodraethu PPC, gan gynnwys ei gyrff mewnol a'u cyfrifoldebau perthnasol. Byddai'r Matrics Llywodraethu yn rhan o Lawlyfr Llywodraethu PPC.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Matrics Llywodraethu PPC.**

## 9. DIWEDDARIAD LINK / RUSSELL

Cafodd y Cydbwyllgor gyflwyniad gan Link a Russell ar gynnydd PPC. Hysbyswyd y Cydbwyllgor bod Cronfa Cyfleoedd yn y DU wedi ei lansio ar 23 Medi 2019. O ran Incwm Sefydlog, roedd y dyddiad lansio wedi ei ohirio gan fod gwaith yn mynd rhagddo ar y prosbectws. Byddai'r prosbectws yn cael ei gyflwyno gyda hyn i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ac wedyn byddai dyddiad targed lansio newydd yn cael ei gadarnhau. Hysbyswyd y Pwyllgor bod yr adroddiad cynnydd yn atodol gyda Phrotocol Ymgysylltu wedi ei ddiweddaru, oedd yn manylu sut dylai'r gweithredwr ymgysylltu gyda PPC.

Awgrymwyd y dylai adroddiadau cynnydd ddarparu gwybodaeth am faint roedd buddsoddiadau ychwanegol yn eu cyfrannu at ddaliadau cyfredol y gronfa a hefyd bod pum is-gronfa Incwm Sefydlog, yn cynnwys Cronfa Gredyd Sterling y DU.

Mewn ymateb i ymholiad ar y llinell amser i lansio Incwm Sefydlog, hysbysodd cynrychiolwyr o Link y byddai PPC yn derbyn rhagor o wybodaeth yr wythnos nesaf. Cafwyd wybod hefyd eu bod wedi ymgynghori gyda'r Rheolwr Trawsnewid Incwm Sefydlog ac roedd wedi cadarnhau bod ganddynt y gallu i gwblhau'r gwaith trawsnewid yn nes ymlaen.

**PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad.**

## 10. ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 30 MEDI 2019

Cafodd y Cydbwyllgor gyflwyniad ar yr adroddiadau perfformiad ar gyfer y Gronfa Twf Byd-eang a'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang fel ar 30 Medi 2019. Cafodd y Cydbwyllgor wybod bod y Gronfa Twf Byd-eang, dros y chwarter diwethaf, wedi cynyddu mewn gwerth o oddeutu 3.8% o £2,204,139,517 i £2,288,355,103 a'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang o tua 3.4% o £2,114,503,736 i £2,186,490,978. O gymharu â'r meincnodau perthnasol, roedd y Gronfa Twf Byd-eang dros y chwarter diwethaf wedi tanberfformio mymryn, gyda dychweliad gwirioneddol o 2.13 yn erbyn meincnod o 3.25 net ffioedd, tra bo'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang wedi gwneud mymryn yn well, gyda dychweliad o 3.40 yn erbyn meincnod o 3.25 net ffioedd.

Wrth ateb ymholiad, hysbyswyd y Cydbwyllgor bod perfformiad rheolwr y gronfa yn cael ei fonitro yn ddyddiol ac roedd gwaith mantoli yn cael ei adolygu bob chwe mis.

Wrth ateb ymholiad, hysbyswyd y Cydbwyllgor y bydd Russell Investments yn darparu mwy o adroddiadau manwl wrth fwrw ymlaen mewn perthynas â'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang.

**PENDERFYNWYD nodi Adroddiadau Perfformiad Cronfa Dwf Byd-eang PPC a Chronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC fel ar 30 Medi 2019.**

## 11. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem a**

**ganlyn gan fod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.**

## 12. YMGYNGHORYDD AROLYGIAETH PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

[Dalier sylw: Gadawodd cynrychiolwyr o Link Fund Solutions, Russell Investments a Hymans Robertson y cyfarfod i'r eitem yma gael ei hystyried.]

**Yn dilyn y cais prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati yng Nghofnod 11 uchod, y dylid ystyried y mater hwn yn breifat gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, gan y byddai datgelu'r cyflwyniad yn debygol o gael effaith andwyol ar Bartneriaeth Pensiynau Cymru drwy roi negodiadau dan anfantais.**

Ystyriodd y PCC adroddiad ar benodiad yr Ymgynghorydd Trosolwg ar gyfer PPC.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo penodiad bidiwr 2 fel y bidiwr a ffefrir ar gyfer Ymgynghorydd Trosolwg Partneriaeth Pensiynau Cymru, yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a therfynu'r Cytundeb Ymgynghorydd Trosolwg.**

| | |
|---|---|
| ____________________________ | _____________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |